

## CYNGOR CYMUNED PENTREFOELAS COMMUNITY COUNCIL

Cadeirydd: Alun Owen

Nos Lun Mehefin 6ed 2016 am 7.30 y.h.

### Cofnodion

1a) Cafwyd trafodaeth ar gychwyn y cyfarfod yn mynegi pryder nad oes digon yn bresennol cyfarfod ac er hwyluso'r pwyllgor bod angen ymddiheuriadau. Er mwyn pennu os oes digon yn bresennol i gynnal pwyllgor dilys gofynnir am ymddiheuriadau dau ddiwrnod cyn y cyfarfod os yn bosib.

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Gari Jones a Paul Weston.
2. **Presennol:** Cyng. Alun Edwards, Alun Owen, Edmund Rees, Cyngorydd Sirol Dilwyn Roberts ac Enid Williams (Clerc)
3. **Datgan Cysylltiad:** Neb yn datgan diddordeb.
4. **Cofnodion mis Mai:** cynigiwyd yn gywir gan Alun Edwards gydag Edmund Rees yn eilio.
5. **Materion y Codi o'r Cofnodion:-**
  - 5.1. Peiriannau talu ar y Cyfleusterau Cyhoeddus – rhai newydd wedi cael ei gosod ac yn gweithio ar y funud ond bod y peiriannu gyda chloc arnynt ac mae'r adeiladau yn cau o 7 o'r gloch y nos tan 7 o'r gloch y bore. Y clerch i edrych i mewn i'r mater.
  - 5.2. Sgip Gymunedol – cwyn fod y sgip wedi mynd o'r pentref cyn yr amser o 9 o'r gloch fel yr hysbyswyd. Y clerch i gysylltu i gwyno. Cynigiodd Edmund Rees gydag Alun Edwards yn eilio ein bod yn archebu sgip arall a'r clerch i drefnu.
  - 5.3. Pont bren heibio o Pentrefelin i'r A5 – ar ôl archwilio'r bont cafwyd wybod ei bod mewn cyflwr perffaith.
  - 5.4. Mieri rhwng yr afon a'r A5 - gobeithio cael sylw i'r mater yn fuan.
6. **Gohebiaeth:**
  - 6.1. Caeau Canmlwyddiant – ar ôl darllen y llythyr penderfynwyd nad oedd y mater yn atebol i ni.
7. **Penodi Archwiliwr Mewnol:**

Edrychwyd dros y drafft a gyda chynigiad Alun Edwards gyda Edmund Rees yn eilio addaswyd ar gyfer y Cyngor Cymuned cyn anfon ymlaen i'r Archwilydd Mewnol lofnodi.
8. **Archwiliwr Mewnol:**
  - a) Anfonwyd llythyr i Eirian Roberts yn gofyn a oedd yn fodlon archwilio'r llyfrau am y flwyddyn 2015-16.
  - b) Derbyniwyd llythyr gan Eirian Roberts yn cadarnhau nad oedd ganddi unrhyw gysylltiad na diddordeb yng ngwaith y Cyngor Cymuned a'i bod yn fodlon archwilio'r llyfrau.
9. **Mantolen Ariannol 2015-2016 – Cafwyd yn gywir ac arwyddwyd.**
  - i) Edrychwyd dros y rheolau cyllid a chael popeth mewn trefn.
  - ii) Mabwysiadwyd asesiad risg a'r rheolau sefydlog.
  - iii) Edrychodd y Cynghorwyr dros yr adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd y system fewnol, popeth yn ei le yma.
  - iv) Trafodwyd polisi gweddillion yr holl arian sydd yn y cyfrif banc ar ddiwedd y flwyddyn a chael ei fod yn gywir, ei gario ymlaen i'r flwyddyn nesaf sydd yn digwydd yn flynyddol.
10. **Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth:**

Gan nad ydyw'r Cynghorwyr yn hawlio costau na lwfansau cyhoeddwyd adroddiad DIM ar ein gwefan a hefyd anfonwyd yn ôl i'r Panel gyda'r wybodaeth.
11. **Talu Anfoneb:**
  - 11.1. Cynigiodd Edmund Rees gydag Alun Edwards yn eilio talu'r anfoneb am 2 x gafn blodau o £29.98 + TAW £6.83 + cludiant £4.16 = **£40.97** gyda siec rhif **100266**.
  - 11.2. Ar gynigiad Edmund Rees gydag Alun Edwards yn eilio talu'r anfoneb am dwb blodau sef **£8.37** gyda siec rhif **100266**.
  - 11.3. Cynigiodd Alun Edwards gyda Edmund Rees yn eilio talu'r anfoneb i Feithrinfa Blodau Betws y Coed am y blodau sef **£64.93** gyda siec rhif **100265**.

12. **Trafod Cyflog y Clerc:**

Gan nad oedd digon yn bresennol yn y cyfarfod penderfynwyd gohirio'r mater a'i drafod yn y cyfarfod nesaf.

13. **Gair gan y Cyng. Dilwyn Roberts**

Cafwyd gair gan y Cyngorydd Sirol a dywedodd mai'r gobaiith fydd Rhanbarthau yng nghyd weithio ac nid yr ad-drefnu fel y crybwyll. Arbrawf am flwyddyn fydd casglu'r biniau du unwaith y mis. Angen codi tal parcio mewn llefydd yn y Sir e.e. Prom ym Mae Colwyn. Rhaglen y 'Proms' yn symud o Abertawe i Barc Eirias eleni.

12. **Unrhyw fater arall:**

12.1 Cais am arwydd Brown Twristiaeth a Charafanau i Tyn Rhos.

12.2. Arbenigwyr Cludiant (angen llenwi holiadur) – gadael hwn tan y cyfarfod nesaf.

12.3. Cais Cynllunio:

Cais Rhif 0/42823.

Safle Bryn Dedwydd, Pentrefoelas.

Gan nad oedd digon yn bresennol penderfynwyd gadael y mater yma tan gyfarfod arall sydd yw benodi.

13. **Dyddiad y cyfarfod nesaf nos Lun Gorffennaf 4ydd 2016 am 7.30 y.h.**

**Angen cadarnhau'r Cofnodion yn y cyfarfod a bod pawb yn fodlon gyda'r penderfyniadau a wnaed.**

Arwyddwyd \_\_\_\_\_ Dyddiad 04.07.2016  
Cadeirydd

\*\*\*\*\*

**Cyfarfod ychwanegol nos Iau Mehefin 16eg 2016 am 8 o'r gloch**

**Cadeirydd: Alun Owen**

**Presennol:** Cyng. Alun Edwards, Dewi Evans, Gari Jones, Edmund Rees, Alun Owen, Paul Weston ac Enid Williams (Clerc)

Daeth dau gais cynllunio i law a bu rhaid galw cyfarfod brys gan fod sylwadau ar un i fod i mewn cyn Mehefin 27ain.

**Còd Ymddygiad** - Bu i Gari Jones ddatgan cysylltiad yn y mater rhif 1, hefyd Paul Weston ym mater rhif 2.

- |    |           |  |
|----|-----------|--|
| 1. | Cais Rhif | 0/42836  |
|    | Ymgeisydd | G B Jones  |
|    | Cynllun   | Codi Adeilad Amaethyddol (Cymeradwyaeth Amaethyddol Ymlaen Llaw) |
|    | Safle     | Fron Bella, Pentrefoelas   |

Ar ôl archwilio'r cynlluniau a gan nad oedd sylwadau cynigiodd Paul Weston gyda Edmund Rees yn eilio cymeradwyo'r Cais a chytunwyd gan bawb.

- |    |           |                            |
|----|-----------|----------------------------|
| 2. | Cais Rhif | 0/42823                    |
|    | Ymgeisydd | Ian Carpenter              |
|    | Cynllun   | Diddymu amodau 4 ac 11     |
|    | Safle     | Bryn Dedwydd, Pentrefoelas |

Gan nad oedd y wybodaeth yn eglur a chliir penderfynwyd gadael y mater tan y cyfarfod nesaf cyn mynegi barn.

Arwyddwyd \_\_\_\_\_  
Cadeirydd

Dyddiad 04.07.16

\*\*\*\*\*

